## Tasg 1

# Chwaraeon cyffrous

Rydych chi'n mynd i wneud taflen i hysbysebu'r gemau hyn yn Llanwrtyd.

1. Trafodwch pa fath o wybodaeth dylech chi ei chynnwys ar y daflen.
   Gwnewch nodiadau.

2. Cymharwch syniadau'r gwahanol grwpiau.

3. Chwiliwch am fwy o wybodaeth am y gemau hyn. Gallech chi edrych ar:
   http://www.worldalternativegames.co.uk/events/

4. Chwiliwch am luniau da ar gyfer y daflen hefyd.

5. Yna, ewch ati i greu'r daflen.

Cofiwch:

Pwrpas y daflen yw hysbysebu, felly beth am ...?

- ddefnyddio ansoddeiriau sy'n mynd i greu diddordeb, e.e.

| | |
|---|---|
| **cyffrous / cynhyrfus** | **anturus** |
| **bywiog** | **rhyfeddol** |
| **gwefreiddiol** | **anhygoel** |
| **penigamp** | **gwych** |

- gofyn cwestiynau, e.e.

**Beth ydych chi'n feddwl o ...?**
**Beth am ...?**
**Hoffech chi ...?**
**Ydych chi'n mwynhau ...?**

- defnyddio gorchmynion

**Dewch i ...** **Anghofiwch am y ... a dewch i ... i fwynhau ...**

- perswadio, e.e.

**Byddwch chi wrth eich bodd yn ...**
**Does dim byd yn well na ...**